

Arolygiad o Bractis Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Practis Deintyddol Birchgrove,
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd
a'r Fro

Dyddiad arolygu: 31 Ionawr 2019

Dyddiad cyhoeddi: 1 Mai 2019

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Gwefan: www.agic.org.uk**

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	6
	Ansawdd profiad y claf	8
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	13
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	20
4.	Beth nesaf?	23
5.	Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol.....	25
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	26
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	27
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	28

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Birchgrove, 100 Heol Caerffili, Caerdydd, CF14 4AG, sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, ar 31 Ionawr 2019.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o arolygwyr AGIC, (gan gynnwys un arweinydd, ac adolygwr cymheiriaid deintyddol.

Ystyriodd AGIC i ba raddau yr oedd y gwasanaeth yn bodloni Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, y Safonau Iechyd a Gofal (2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth bod Practis Deintyddol Birchgrove yn darparu gwasanaeth cyfeillgar a phroffesiynol i'w gleifion.

Roedd y practis yn canolbwyntio ar y cleifion. Gwelsom dystiolaeth o arweinyddiaeth gref ac roedd y polisïau a'r gweithdrefnau gofynnol ar waith i gefnogi'r cleifion a'r staff.

Roedd y practis, ffeiliau'r staff a gwybodaeth am y practis yn cael eu cynnal i safon uchel.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd dystiolaeth bod y rheolwr cofrestredig a rheolwr y practis yn rheoli ac yn arwain yn gadarn
- Cafwyd adborth cadarnhaol gan y cleifion a oedd yn nodi eu bod yn fodlon â'r gwasanaeth a ddarperir
- Roedd trefniadau priodol ar waith i sicrhau bod offer yn cael eu cadw i safon uchel.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylai'r practis sicrhau bod gwybodaeth ar gael er mwyn helpu'r cleifion i wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth am ofal iechyd y geg a thriniaethau.
- Rhaid i'r practis gynnal amrywiaeth o weithgareddau archwilio a gwella ansawdd er mwyn dangos gwelliant parhaus.

Ni nodwyd unrhyw feysydd lle roedd diffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

5. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae Practis Deintyddol Birchgrove yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Llwynbedw yng Nghaerdydd. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Mae gan y practis dîm o staff sy'n cynnwys dau ddeintydd, un hylenydd, un therapydd, tair nyrs ddeintyddol, un derbynnydd a rheolwr practis.

Mae'r practis yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau deintyddol cyffredinol preifat ac ar ran y GIG.

Ansawdd profiad y claf

Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Ar y cyfan, gwelsom fod y practis yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion. Roedd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC o'r farn bod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis deintyddol yn ardderchog neu'n dda iawn.

Roedd gan y practis ystod gyfyngedig o daflenni am hybu iechyd y geg a thafleuni gwybodaeth am driniaethau i'r cleifion, felly dylai ystyried darparu amrywiaeth ehangach er mwyn helpu'r cleifion i ddeall iechyd y geg yn well.

Yn ystod ein harolygiad, dosbarthwyd holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn y practis. Derbyniwyd cyfanswm o 41 o holiaduron wedi'u cwblhau.

Roedd yr adborth gan y cleifion yn gadarnhaol ar y cyfan; dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn teimlo bod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis yn 'ardderchog' neu'n 'dda iawn'. Ymhlith y sylwadau a gafwyd gan y cleifion yn yr holiaduron roedd y canlynol:

"Hapus iawn â'r gofal a'r gwasanaeth rwyf wedi'u cael a byddwn yn fwy na pharod i'w argymhell i bobl eraill"

"Mae'r ddeintyddfa'n broffesiynol ac yn effeithlon wrth ymateb i ymholiadau drwy e-bost neu yn y ddeintyddfa"

"Hapus iawn â'r gwasanaeth a'r gofal rwyf wedi'u cael. Byddwn yn argymhell y practis heb feddwl ddwywaith"

Gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiaduron sut y gallai'r practis deintyddol wella'r gwasanaeth a ddarperir ganddo; roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys:

"Trefnu apwyntiadau ar-lein os oes modd. Ychydig yn fwy o deganau neu lyfrau i blant"

"Trefnu apwyntiadau ar-lein efallai"

Cadw'n iach

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Dyweddodd pob claf a gwblhaodd yr holiadur wrthym fod y tîm deintyddol wedi sôn wrthynt sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach.

Yn yr ystafell aros, roedd gwybodaeth ar gael i'r cleifion am y triniaethau deintyddol preifat a oedd ar gael. Fodd bynnag, ni welsom unrhyw wybodaeth hybu iechyd, fel gwybodaeth am iechyd da yn y geg neu roi'r gorau i smygu. Dylai'r practis ddarparu amrywiaeth eang o wybodaeth i'r cleifion er mwyn eu helpu i wneud dewisiadau da mewn perthynas ag iechyd y geg.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis ddarparu amrywiaeth eang o wybodaeth i'r cleifion er mwyn eu helpu i wneud dewisiadau da mewn perthynas ag iechyd y geg.

Gofal ag urddas

Roedd pob un ond un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch gan y staff wrth ymweld â'r practis.

Gwelsom y staff yn siarad â'r cleifion mewn ffordd gwrtais a moesgar.

Roedd desg y dderbynfa wedi'i lleoli mewn ardal ar wahân i'r ystafell aros, gan roi preifatrwydd i'r cleifion mewn trafodaethau â'r staff. Dywedodd y staff wrthym y gallent ddefnyddio'r swyddfa petai angen cael sgwrs breifat wyneb yn wyneb neu dros y ffôn â chlaf. Roedd gan bob un o'r deintyddfeydd ddrysau y gellid eu cau er mwyn sicrhau'r lefelau priodol o breifatrwydd ac urddas i gleifion sy'n cael triniaeth.

Nodwyd gennym fod 9 egwyddor y Cyngor Deintyddol Cyffredinol¹ yn cael eu harddangos yn y dderbynfa.

Gwybodaeth i gleifion

Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys gymaint ag yr hoffent mewn unrhyw benderfyniadau a wneir am eu triniaeth. Lle y bo'n berthnasol, gwnaeth pob un o'r cleifion hefyd ddweud eu bod wedi cael gwybodaeth glir am yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael.

Roedd y wybodaeth yn esbonio costau triniaeth y GIG a thriniaeth breifat yn glir i'r cleifion ym mhob rhan o'r practis.

Roedd Taflen Wybodaeth i Gleifion y practis yn cynnwys gwybodaeth gynhwysfawr am y practis a'r holl wybodaeth sy'n ofynnol yn ôl y Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (2017), ac roedd ar gael i'r cleifion.

Y tu allan i'r adeilad, gwelsom fod oriau agor y practis a'r rhif ffôn mewn argyfwng yn cael eu harddangos, ynghyd ag enw pob deintydd sy'n gweithio yn y practis.

Cyfathrebu'n effeithiol

Yn ddieithriad, dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn gallu siarad â'r staff yn eu dewis iaith bob amser.

Roedd y practis yn ddwyieithog a dywedwyd wrthym fod gwybodaeth ar gael i'r cleifion yn Gymraeg. Gwnaethom gynghori'r practis y gellid cynnwys cwestiwn ar ei ffurflenni cleifion yn gofyn i'r cleifion nodi eu dewis iaith.

Mae gan y practis wefan sy'n cynnwys gwybodaeth gynhwysfawr i gleifion, gan gynnwys sut i drefnu apwyntiadau a'r amrywiaeth o driniaethau sydd ar gael.

Gofal amserol

¹ <https://standards.gdc-uk.org/> Mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi nodi 9 egwyddor sy'n gymwys i bob gweithiwr deintyddol proffesiynol cofrestredig. Maent yn amlinellu'r safonau, y perfformiad a'r foeseq y gall cleifion eu disgwyl gan weithiwr deintyddol proffesiynol

Roedd manylion am sut y gallai cleifion gael gafael ar ofal deintyddol brys pan oedd y practis ar gau ar gael i gleifion y tu allan i'r ddeintyddfa, yn y daflen i gleifion ac ar wefan y practis. Roedd y practis hefyd yn cynnig apwyntiadau brys bob dydd yn ystod oriau gwaith. Fodd bynnag, dywedodd ychydig yn llai na thraean o'r cleifion a gwblhaodd holiadur na fyddent yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe byddai ganddynt broblem ddeintyddol frys. Efallai yr hoffai'r practis ailystyried hyrwyddo'r gwasanaethau hyn.

Teimlai'r rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn ei chael hi'n 'hawdd iawn' cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt.

Roedd y practis yn ymdrechu i sicrhau y câi'r cleifion eu gweld yn brydlon. Dywedodd y staff wrthym, petai deintydd yn rhedeg yn hwyr, y byddent yn rhoi gwybod i'r claf oedd yn aros am unrhyw oedi ac yn caniatáu iddynt aildrefnu petai angen iddynt wneud hynny.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Lle y bo'n berthnasol, cadarnhaodd pob un ond un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y deintydd yn holi am eu hanes meddygol cyn rhoi unrhyw driniaeth.

Hawliau pobl

Nid oedd y practis yn addas i gleifion ag anawsterau symudedd am fod y ddwy ddeintyddfa ar y llawr cyntaf. Caiff cleifion ag anawsterau symudedd sy'n gwneud ymholiadau am ofal deintyddol eu cyfeirio at y Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol a ddarperir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Nodwyd gennym fod y practis wedi rhoi nifer o bolisiâu ar waith gan gynnwys polisi Deddf Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a pholisi derbyn cleifion newydd. Roedd hyn yn golygu bod y practis yn gallu cyflawni ei ymrwymïadau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Gwranddo a dysgu o adborth

Gwelsom fod polisi cwynion ar waith a oedd yn cydymffurfio â rhaglen Gweithio i Wella² y GIG a'r Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat. Roedd y cofnodlyfr cwynion yn gynhwysfawr ac yn nodi'r achosion fel yr oeddent wedi digwydd, gan gynnwys y canlyniadau a'r gwersi a ddysgwyd.

Mae'r practis yn cynnal arolygon cleifion blynyddol ac mae blwch awgrymiadau ar gael yn yr ystafell aros, er mwyn i'r cleifion allu rhoi adborth rheolaidd i'r practis. Caiff canlyniadau'r arolwg blynyddol ac awgrymiadau gan gleifion eu trafod yn fewnol yn ystod cyfarfodydd tîm fel y bo'n briodol. Roedd y practis yn rhoi gwybod i'r cleifion am unrhyw gamau a gymerwyd yn sgil adborth ar boster sy'n cael ei arddangos yn yr ystafell aros.

²http://www.wales.nhs.uk/sites3/documents/932/Healthcare%20Quality%20-%2030166_Putting%20Things%20Right_a5%20leaflet_Welsh_WEB%20VERSION%20-%20FINAL%20-%202017%2003%20011.pdf

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth bod y cleifion yn cael gofal deintyddol diogel ac effeithiol. Roedd cofnodion meddygol yn cael eu cynnal i safon uchel.

Nodwyd gennym fod y cyfleusterau clinigol yn cynnwys adnoddau digonol a bod trefniadau ar waith i drin cleifion yn ddiogel.

Argymhellwn y dylai'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael hyfforddiant priodol mewn meysydd megis radiograffeg a diogelu.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Ni leisiwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch glendid y practis deintyddol; roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn bod y practis deintyddol yn "lân iawn".

Gwelsom fod trefniadau ar waith i sicrhau diogelwch a lles y staff sy'n gweithio yn y practis a'r bobl sy'n ymweld ag ef. Roedd y tu allan i'r adeilad yn ymddangos fel petai'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Roedd y tu mewn i'r adeilad yn olau, yn daclus ac yn fawr.

Gwelsom fod nifer o bolisiau ar waith mewn perthynas ag addasrwydd y fangre, gan gynnwys polisi iechyd a diogelwch a pholisi wrth gefn mewn argyfwng. Roedd polisiau ac asesiadau risg ar gael yn hawdd i bob aelod o'r staff ac yn cael eu nodi mewn cyfarfodydd tîm. Roedd asesiad risg amgylcheddol digonol ar waith er mwyn helpu i ddiogelu staff a chleifion.

Roedd dyfeisiau diffodd tân ar gael mewn amrywiol leoliadau yn yr adeilad a nodwyd eu bod wedi cael eu gwasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf. Roedd asesiad risg diogelwch tân ar waith yn y practis yn ogystal â pholisi tân, a gwelsom fod y staff wedi'u hyfforddi'n briodol.

Roedd gwastraff clinigol yn cael ei storio'n briodol.

O dan Reoliadau Rheoli Sylweddau sy'n Beryglus i Iechyd 2002³, mae angen i gyflogwyr naill ai atal neu leihau amlygiad staff i sylweddau sy'n beryglus i'w hiechyd. Gwelsom fod gan y practis brotocol 'Rheoli Sylweddau sy'n Beryglus i Iechyd' (COSHH) a pholisi ar gyfer trin a thrafod mercwri.

Atal a rheoli heintiau

Roedd gan y practis broses ar gyfer glanhau a sterileiddio (dihalogi) offerynnau deintyddol mewn ystafell ddihalogi ddynodedig, fel yr argymhellir ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru Diwygiad 1 (WHTM) 1-05⁴. Gwelsom dystiolaeth fod protocol ar waith i wirio'r offer sterileiddio a'i fod yn gyfredol. Roedd polisi rheoli heintiau a pholisi ar ddiogelwch offer miniog hefyd ar gael i'r staff, sy'n golygu bod y staff a'r cleifion yn cael eu hamddiffyn yn ddigonol rhag anafiadau a heintiau a achosir gan nodwyddau. Roedd cyfarpar diogelu personol ar gael i'r staff ac roeddent yn ei ddefnyddio wrth wneud gwaith dihalogi.

Roedd y deintyddfeydd yn amlwg yn lân ac yn daclus ac roedd gan y practis amserlen lanhau ddyddiol i'r staff ei dilyn er mwyn sicrhau bod pob un ohonynt yn cael eu cadw yn unol â WHTM 01-05.

Gwelsom dystiolaeth fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant cyfredol ar reoli heintiau. Gwelsom dystiolaeth hefyd fod y practis wedi cynnal archwiliadau rheoli heintiau rheolaidd yn unol â WHTM 01-05.

Mae'n ofynnol i'r staff clinigol gael eu himiwneiddio yn erbyn Hepatitis B er mwyn amddiffyn y cleifion a nhw eu hunain yn erbyn yr haint. Darparodd y practis dystiolaeth o imiwnedd ar gyfer pob aelod o'r staff clinigol.

Gwelsom fod archwiliad mewn perthynas â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05⁵ wedi cael ei gynnal, ond gwnaethom gynghori y dylid llunio

³ http://www.hse.gov.uk/foi/internalops/ocs/200-299/273_20/

⁴ <http://www.wales.nhs.uk/sites3/documents/254/WHTM%2001-05%20Revision%201.pdf>

⁵ www.wales.nhs.uk/sites3/documents/254/WHTM_01-05_Revision_1.pdf Canllaw rhagnodol ar brotocolau dihalogi a sterileiddio effeithiol ar gyfer practisau deintyddol yw WHTM 01-05.

cynllun gwella er mwyn sicrhau y caiff camau priodol eu cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw welliannau a nodir.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd gweithdrefnau ar waith yn y practis i ymdrin ag argyfyngau mewn perthynas â chleifion, gan gynnwys gweithdrefn dadebru ac argyfyngau meddygol. Roedd pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant yn ystod y deuddeg mis diwethaf ar sut i ymdrin ag argyfyngau meddygol a sut i ymgymryd â thriniaeth dadebru cardiobwlmonaidd.

Roedd y practis wedi penodi dau swyddog cymorth cyntaf, gan sicrhau y câi'r staff a'r cleifion gymorth cyntaf priodol pe byddai damwain neu anaf.

Roedd gan y practis gyffuriau argyfwng priodol, ond nid oedd yr offer dadebru i'w ddefnyddio mewn argyfwng yn cynnwys padiau pediatrig ar gyfer y diffibriliwr. Mae AGIC yn argymhell y dylai fod gan bob practis sy'n trin plant offer dadebru sy'n briodol i oedran, neu asesiad risg yn dangos pam nad yw hyn yn ofynnol, yn unol â Safonau Ansawdd y Cyngor Dadebru⁶. Gwnaethom dynnu sylw rheolwr y practis at hyn a chafodd padiau newydd eu harchebu ar unwaith. Roedd pecyn cymorth cyntaf y practis yn gyflawn ac roedd dyddiadau defnyddio'r eitemau yn addas. Roedd gan y practis bolisiau a gweithdrefnau cynhwysfawr ar waith ac roedd yr holl staff wedi cytuno arnynt, er mwyn sicrhau bod modd cael gafael ar feddyginiaethau yn ogystal â'u trin, eu defnyddio, eu storio a'u gwaredu yn briodol.

Dywedwyd wrthym fod yr holl ddigwyddiadau niweidiol yn ymwneud â chyffuriau yn cael eu cofnodi drwy gynllun Cerdyn Melyn MHRA⁷.

⁶ Nod y Cyngor Dadebru (DU) yw hyrwyddo canllawiau dadebru gwyddonol o ansawdd uchel sy'n berthnasol i bawb, a chyfrannu at achub bywydau drwy addysg, hyfforddiant, gwaith ymchwil a chydweithredu

⁷ <https://yellowcard.mhra.gov.uk/the-yellow-card-scheme/>

Yr hyn sydd angen ei wella

Rydym yn argymhell y dylai fod gan bob practis sy'n trin plant offer dadebru sy'n briodol i oedran, neu asesiad risg yn dangos pam nad yw hyn yn ofynnol, yn unol â Safonau Ansawdd y Cyngor Dadebru

Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg

Gwelsom fod polisiâu a gweithdrefnau cynhwysfawr ar waith yn y practis i hyrwyddo ac amddiffyn lles plant ac oedolion agored i niwed, a oedd yn cynnwys manylion cyswllt yr asiantaethau diogelu perthnasol. Roedd polisiâu'n cael eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod gwybodaeth gyfredol ar gael yn y practis.

Roedd pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant priodol ar amddiffyn plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed, a dangosodd y staff eu bod yn hyderus o ran pa gamau i'w cymryd os cyfyd pryder.

Gwnaethom awgrymu bod swyddog diogelu arweiniol y practis yn ystyried ymgymryd â hyfforddiant diogelu lefel uwch er mwyn sicrhau bod ganddo'r sgiliau a'r ddealltwriaeth briodol o faterion diogelu i weithredu fel swyddog arweiniol.

Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig

Gwnaethom nodi bod yr offer deintyddol yn cael eu gwasanaethu a'u cynnal a'u cadw'n rheolaidd, ac eithrio'r peiriant OPT⁸ yr oedd angen cwblhau gwaith o'r fath arno. Yn ystod yr arolygiad, trefnwyd i'r peiriant gael ei wasanaethu yr wythnos ganlynol, a chytunodd y practis i beidio â'i ddefnyddio nes bod y gwaith

⁸ Mae peiriant Technoleg Curiadau Optimaidd (OPT) yn cymryd radiograffau panoramig. Lluniau pelydr-X deintyddol o'r ên uchaf ac isaf yw radiograffau panoramig, ac maent yn dangos delwedd dau ddimensiwn o hanner cylch o glust i glust. Mae hyn yn fodd i gynnal profion pelydr-X mwy cynhwysfawr er mwyn chwilio am broblemau penodol.

wedi'i gwblhau. Rhaid i'r practis sicrhau y cedwir at amserlenni gwasanaethu'r holl beiriannau yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwyr.

Roedd y ffeil diogelu rhag ymbelydredd yn gynhwysfawr ac yn llawn gwybodaeth, ond rydym yn cynghori y dylid ychwanegu rhestr o'r holl offer radiograffeg er mwyn rhoi cofnod clir a chyfoes o'r offer.

Yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol⁹ a Rheoliadau Ymbelydredd Ioneiddio (Amlygiad Meddygol) 2000¹⁰, rydym yn disgwyl i bob aelod o'r staff gael hyfforddiant priodol ar ddiogelu rhag ymbelydredd. Nodwyd gennym nad oedd pob un o'r nyrsys deintyddol wedi cael yr hyfforddiant gofynnol ar adeg yr arolygiad, a gwnaethom argymhell y dylai pob aelod o'r staff gael hyfforddiant priodol er mwyn sicrhau y caiff radiograffau eu defnyddio'n ddiogel. Darparwyd yr hyfforddiant dan sylw a chyflwynwyd tystiolaeth o hyn yn fuan ar ôl yr arolygiad.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod offer yn cael eu gwasanaethu a'u cynnal a'u cadw yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwyr

Rhaid i'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael hyfforddiant priodol ar ddiogelu rhag ymbelydredd, a hynny'n rheolaidd.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwelsom dystiolaeth bod y practis wedi cynnal nifer fach o archwiliadau clinigol, ond rydym yn argymhell y dylid cynnal archwiliadau megis archwiliadau o gofnodion y cleifion, rhagnodi gwrthfotigau a sgrinio ar gyfer canser er mwyn hybu diogelwch y cleifion.

⁹ Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol – <http://www.gdc-uk.org/Pages/default.aspx>

¹⁰ http://www.legislation.gov.uk/ukxi/2000/1059/pdfs/ukxi_20001059_en.pdf

Roedd datganiad o ddiben y practis yn nodi'r trefniadau priodol ar gyfer derbyn, asesu, diagnosio a thrin cleifion. Roedd gan y practis amrywiaeth o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith i ategu'r swyddogaethau hyn.

Gwelsom dystiolaeth drwy gydol y dydd fod canllawiau proffesiynol, rheoliadol a statudol, megis NICE¹¹, yn cael eu hystyried a'u dilyn lle y bo'n briodol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis gynnal amrywiaeth ehangach o archwiliadau er mwyn hybu diogelwch y cleifion.

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Dywedwyd wrthym nad oedd y practis yn defnyddio unrhyw adnoddau gwella ansawdd fel adnodd datblygu practisau Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth Deoniaeth Cymru¹² na Chanllaw Arfer Da Cymdeithas Ddeintyddol Prydain¹³ er mwyn gwella ansawdd y practis. Gwnaethom argymhell y dylai'r practis ystyried defnyddio un o'r adnoddau hyn i ddatblygu gwaith gwella ansawdd parhaus.

1. ¹¹ <https://www.nice.org.uk/.../oral-and-dental-health>

¹² <https://dental.walesdeanery.org/improving-practice-quality/maturity-matrix-dentistry> Mae'r Adnodd Matrics Aeddfedrwydd yn adnodd datblygu practisau deintyddol sy'n annog y tîm i ganolbwyntio ar arfer gorau a gofynion deddfwriaethol ac ar sut maent yn gweithio.

¹³ <https://www.bda.org/goodpractice> Rhaglen sicrhau ansawdd yw cynllun Arfer Da Cymdeithas Ddeintyddol Prydain, sy'n galluogi ei haelodau i gyfleu ymrwymiad parhaus i weithio yn unol â safonau arfer da o ran cyfrifoldebau proffesiynol a chyfreithiol i'w cleifion.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis ystyried defnyddio adnodd Gwella Ansawdd yn y practis

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Gwelsom fod gwybodaeth am gleifion yn cael ei storio'n ddiogel, gan sicrhau bod gwybodaeth bersonol a sensitif wedi'i diogelu. Roedd gan y practis bolisi rheoli cofnodion hefyd. Roedd copïau wrth gefn o gofnodion electronig yn cael eu gwneud yn rheolaidd i amddiffyn gwybodaeth cleifion ac atal colled.

Cadw cofnodion

Gwnaethom adolygu sampl o gofnodion cleifion. Gwelsom fod y cofnodion o safon dda ar y cyfan. Fodd bynnag, gwelsom fod bylchau yn y cofnodion mewn nifer o achosion mewn perthynas ag archwilio y tu allan i'r geg a'r tu mewn i'r geg¹⁴. Argymhellwyd y dylai'r practis gofnodi archwiliadau o'r tu allan i'r geg a'r tu mewn i'r geg ar wahân fel rhan o'r broses o gadw cofnodion yn unol â chanllawiau proffesiynol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Argymhellwyd y dylai'r practis gofnodi archwiliadau o'r tu allan i'r geg a'r tu mewn i'r geg ar wahân fel rhan o'r broses o gadw cofnodion yn unol â chanllawiau proffesiynol.

¹⁴ Archwiliadau o feinweoedd meddal y tu mewn i'r geg a'r tu allan i'r geg.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd sut mae'r gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.

Gwelsom dystiolaeth o ddulliau rheoli ac arwain da yn y practis.

Roedd amrywiaeth gynhwysfawr o bolisiâu a gweithdrefnau perthnasol ar waith yn y practis, ac roedd y rhain yn cael eu hadolygu bob blwyddyn, a gwelsom dystiolaeth fod pob aelod o'r staff wedi'u darllen.

Roedd gweithdrefnau rheoli cadarn ar waith er budd staff, gan gynnwys rhaglen sefydlu gynhwysfawr, arfarniadau staff blynyddol a chyfarfodydd staff rheolaidd.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Y Rheolwr Cofrestredig sy'n berchen ar Bractis Deintyddol Birchgrove¹⁵. Roedd y Rheolwr Cofrestredig hefyd yn gweithredu fel yr Unigolyn Cyfrifol¹⁶ a'r prif ddeintydd. Cadarnhaodd Rheolwr y Practis ei bod wedi cael hyfforddiant rheoli fel rhan o'i gradd.

Roedd amrywiaeth eang o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith er mwyn sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion. Roedd y Datganiad o Ddiben a'r Daflen Wybodaeth i Gleifion yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol fel sy'n ofynnol

¹⁵ ystyr "rheolwr cofrestredig" yw rhywun sydd wedi'i gofrestru o dan Ran 2 o'r Ddeddf fel rheolwr practis deintyddol preifat.

¹⁶ Ystyr "unigolyn cyfrifol" yw cyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog arall y sefydliad sy'n gyfrifol am oruchwylio'r ffordd y caiff practis deintyddol preifat ei reoli;

gan y rheoliadau. Nodwyd bod polisiâu newydd yn cael eu trafod mewn cyfarfodydd tîm ac yna byddai'r staff yn cytuno iddynt ac yn eu llofnodi. Golygai hyn fod y staff yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y polisiâu a'r gweithdrefnau a oedd ar waith i'w cefnogi yn eu rolau.

Cadarnhaodd y Rheolwr Cofrestredig ei bod yn ymwybodol o'i dyletswyddau o ran yr hysbysiadau, gan gynnwys anafiadau difrifol i gleifion ac absenoldeb y Rheolwr Cofrestredig neu newidiadau i'r Rheolwr Cofrestredig, y mae'n rhaid eu hanfon i AGIC¹⁷.

Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi'i gofrestru i ymarfer gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac roedd yswiriant indemnedd priodol ar waith ar eu cyfer. Gwelsom fod tystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus y practis yn cael ei harddangos yn y dderbynfa.

Staff ac adnoddau

Y Gweithlu

Roedd gan y practis nifer o bolisiâu a gweithdrefnau adnoddau dynol, gan gynnwys polisi recriwtio. Roedd y staff hefyd yn cael arfarniadau blynyddol ac roedd ganddynt gynlluniau datblygu personol ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Heblaw am y rhai y cyfeiriwyd atynt yn flaenorol drwy'r adroddiad hwn, gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos bod pob aelod o'r staff clinigol wedi cael hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau sy'n berthnasol i'w rolau er mwyn cefnogi eu datblygiad proffesiynol parhaus.

¹⁷ O dan reoliadau 25-29 o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, rhaid i'r darparwr cofrestredig hysbysu AGIC am ddigwyddiadau pwysig, gan gynnwys anafiadau difrifol i gleifion ac absenoldeb y rheolwr cofrestredig neu newidiadau i'r rheolwr cofrestredig.

Dywedwyd wrthym fod y practis yn cynnal cyfarfodydd staff yn rheolaidd. Roeddent yn cwmpasu amrywiaeth eang o bynciau mewn perthynas â'r practis gan gynnwys yr hyn a ganfyddir o adborth, polisiau a gweithdrefnau newydd a'r rhai sydd i ddod a darnau eraill o wybodaeth a allai effeithio ar y staff. Gwelsom gofnodion y cyfarfodydd hyn ac roedd staff na allant fod yn bresennol yn cael y wybodaeth ddiweddaraf gan reolwr y practis.

Mae'r Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat yn ei gwneud yn ofynnol, ar adeg cofrestru, i bob aelod o'r staff sy'n gweithio yn y practis feddu ar Dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a gyhoeddwyd o fewn y tair blynedd flaenorol. Gwelsom dystiolaeth bod archwiliadau clirio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'u cynnal ar gyfer pob aelod o'r staff.

6. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau ac achosion uniongyrchol o ddiffyg cydymffurfio yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle gwnaethom gyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd.

O ganlyniad i ganfyddiadau arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach

- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

7. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Fel arfer, rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau o bractisau deintyddol. Bydd practisau deintyddol yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad. Mae hyn er mwyn iddynt allu gwneud trefniadau i sicrhau bod y practis yn rhedeg fel arfer, a bod yr arolygiad yn tarfu cyn lleied â phosibl ar y cleifion.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol ac ar lefel strategol.

Rydym yn cadarnhau i ba raddau y mae practisau deintyddol yn cyrraedd [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#) a, lle y darperir deintyddiaeth breifat, i ba raddau y maent yn bodloni [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) 2017](#). Lle y bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999](#), [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio \(Amlygiad Meddygol\) 2000](#) ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill megis [Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol](#).

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu [practisau deintyddol](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn			

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Birchgrove

Dyddiad arolygu: 31/01/2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol ynglŷn â diffyg cydymffurfio sy'n effeithio ar ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Camau i'w cymryd	Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion yn ymwneud â diffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn				

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei weithredu.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Birchgrove

Dyddiad arolygu: 31 Ionawr 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym pa gamau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Dylai'r practis ddarparu amrywiaeth eang o wybodaeth i'r cleifion er mwyn eu helpu i wneud dewisiadau da mewn perthynas ag iechyd y geg.	1.1 Hybu, diogelu a gwella iechyd; Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017, Adran 13	Mae taflenni wedi cael eu rhoi yn yr ystafell aros sy'n cefnogi dewisiadau da o ran iechyd y geg i'r cleifion. Mae'r cyngor hwn wedi cael ei ddilyn ac mae taflenni wedi cael eu rhoi yn yr ystafell aros.	Beth Lewis – Rheolwr y Practis	Cwblhawyd 7/3/19
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
Rydym yn argymhell y dylai fod gan bob practis sy'n trin plant offer dadebru sy'n briodol i oedran, neu asesiad risg yn dangos pam nad yw	2.6 Rheoli Meddyginiaethau; Rheoliadau	Er i ni gael ein cyngori bod padiau i oedolion yn ddigonol, rydym bellach wedi prynu padiau diffibriliwr i blant er	Beth Lewis	Cwblhawyd 31/1/19

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
hyn yn ofynnol, yn unol â Safonau Ansawdd y Cyngor Dadebru	Deintyddiaeth Breifat 2017, Adran 13	mwyn cydymffurfio â'r arfer gorau.		
<p>Rhaid i'r practis sicrhau bod offer yn cael eu gwasanaethu a'u cynnal a'u cadw yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwyr</p> <p>Rhaid i'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant priodol ar ddiogelu rhag ymbelydredd.</p>	<p>2.9 Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol; Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017, Adran 13, Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017, Adran 17</p>	<p>Mae'r prawf allweddol tair blynedd bellach wedi cael ei gynnal yn llwyddiannus. Mae'r prawf hwn bellach yn y dyddiadur ar gyfer mis Chwefror 2022 a phob tair blynedd ar ôl hynny, yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwyr.</p> <p>Cyflwynwyd y dystysgrif i AGIC.</p>	<p>Beth Lewis – Rheolwr y Practis</p> <p>Beth Lewis</p>	<p>Cwblhawyd – tystysgrif wedi'i hatodi. 2/19</p>
Dylai'r practis gynnal amrywiaeth eang o archwiliadau er mwyn hybu diogelwch y cleifion.	3.1 Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol; Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017, Adran 8	Yn ogystal â'r holl archwiliadau a gwblheir gennym yn rheolaidd, byddwn nawr yn cwblhau rhagor o archwiliadau sy'n hybu diogelwch y cleifion.	Beth Lewis – Rheolwr y Practis	30/5/2019

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Dylai'r practis ystyried defnyddio adnodd Gwella Ansawdd yn y practis	3.3 Gwella Ansawdd, Ymchwil ac Arloesi; Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017 adran 16	Byddwn nawr yn defnyddio adnoddau gwella ansawdd megis adnodd datblygu practisau Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth Deoniaeth Cymru.	Beth Lewis – Rheolwr y Practis	30/5/2019
Argymhellwyd y dylai'r practis gofnodi archwiliadau o'r tu allan i'r geg a'r tu mewn i'r geg ar wahân fel rhan o'r broses o gadw cofnodion yn unol â chanllawiau proffesiynol.	3.5 Cadw cofnodion; Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017, Adran 20)	Rydym bellach wedi gwahanu ein harchwiliadau o'r tu mewn i'r geg a'r tu allan i'r geg yn nodiadau'r holl glinigwyr er mwyn cydymffurfio â'r canllawiau arfer gorau.	Craig Lewis — Prif ddeintydd	Cwblhawyd 31/1/19

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei weithredu.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Beth Lewis

Swydd: Rheolwr y Practis

Dyddiad: 20/3/19